

Cyflwyno Medalau Gee yn yr Allt-wen

Yn un o'i ganeuon mae Huw Chiswell, wrth deithio i fyny Cwmtawe a dod i ymyl y Graig arw a gweld Capel Panteg, ger Ystalyfera, yn mynegi ei ddyled i'r capel lle cafodd ei fagwraeth. Meddai yn y gân, 'Ces fy magu yn y capel ac ar Air yr Ysgol Sul', ac mae pawb ohonom sydd yma heddiw yn ddyledus i ddylanwad yr Ysgol Sul arnom.

Cawson gyfle ddydd Sadwrn, 30 Medi, i ymgynnull yng Nghapel yr Allt-wen i anrhydeddu pump o unigolion a roes gyfraniad sylweddol i fywyd eglwysi a'u hysgolion Sul. Daeth Aled Davies (Aled Ysgol Sul yn yr Orsedd) ar ran y Cyngor Ysgolion Sul atom i gyflwyno Medal Gee i Phyllis Bell o Nebo, Felindre, ger Abertawe; Nest Davies a Rhydwen James o gapel yr Allt-wen ac i Eiry Shopland o gapel Soar, Maes-yr-haf, Castell-nedd. Cyflwynwyd hefyd fedal arbennig i Sharon Rees (un o ferched yr Allt-wen) am ei gwasanaeth difflino ers 32 mlynedd yn gweithio'n genhadol yn Eglwys Llanfair, Pen-rhys.

Llywyddwyd yr oedfa gan y Parchedig Gareth Morgan Jones a'r organydd oedd Huw Rees. Cymerwyd at y rhannau arweiniol gan Angharad Naylor, Beti Williams, Gareth Richards, a rannodd eu hatgofion am gyfraniad y medalwyr i'w heglwysi, cyn i ni gael ein harwain mewn gweddi gan y Parchedig Rhys Locke. Daeth y pump ymlaen yn eu tro i dderbyn y medalau, gyda Gareth a Rhys yn eu cyflwyno i'r gynulleidfa luosog yn y capel. Braff hefyd oedd clywed tystiolaeth rhai o'r medalwyr wrth iddynt ddiolch am yr anrhydedd a rhannu rhai atgofion am oes o wasanaeth yn yr ysgol Sul.

Yn dilyn y gwasanaeth cafodd llond festri fwyta o'r danteithion a baratowyd gan chwirydd gweithgar yr Allt-wen, a phawb wedi mwynhau'r gymdeithas. Roedd yn sicr yn ddydd o lawen chwedl, a bu inni ddiweddu'r oedfa drwy ganu a dyheu gyda'r emynydd:



Air disglair Duw,
dyro d'olau i Gymru heddiw,
tyrd, Ysbryd Glân, rho dy dân i ni:
rhed, afon gras,
taena gariad ar draws y gwledydd,
dyro dy air
a goleuni a fydd.

Gareth Morgan Jones

Aeth BBC Cymru Fyw ati i gyf-weld tri o'r medalwyr, a chawsant gyfle i rannu eu hatgofion a'u gobeithion am y dyfodol. Mae modd darllen yr erthygl honno drwy glicio [YMA](#).

Mae pedwar cyfarfod arall wedi eu trefnu hefyd, ar hyd a lled Cymru, er mwyn cyflwyno gweddill y medalau dros yr wythnosau nesaf. (Gol.)

Cynhadledd DARE CWM, Bangkok, Medi 2023



Partneriaeth fyd-eang o 32 o eglwysi, gan gynnwys Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Undeb yr Annibynwyr Cymraeg a'r Eglwys Ddiwygiedig Unedig yng Nghymru yw'r Cyngor Cenhadaeth Fyd-cang (Council for World Mission – CWM). Mae'r eglwysi sy'n aelodau o'r Cyngor 'wedi ymrwymo i rannu eu hadnoddau mewn arian, pobl, sgiliau, a syniadau yn fyd-eang er mwyn cyflawni cenhadaeth Duw yn lleol'.

Ffurfiwyd CWM yn swyddogol yn 1977, er bod ei wreiddiau'n dyddio'n ôl i 1795 pan sefydlwyd Cymdeithas Genhadol Llundain (LMS). Mae'n fudiad unigryw ac mae bod yn rhan ohono yn brofiad cyffrous, gan ei fod yn wir yn bartneriaeth o eglwysi o bob rhan o'r byd sy'n rhannu adnoddau ac yn cydweithio fel modd o gymryd rhan yng nghenhadaeth achubol Duw ar gyfer yr holl greadigaeth. Yn wir, ers ei sefydlu, mae CWM wedi ceisio ymateb i syniadau problemau am oruchafiaeth ddiwylliannol y Gorllewin sydd wedi effeithio'n gyson ar y mudiad cenhadol modern (h.y. datganiad cenhadol gwreiddiol yr LMS, 'to spread the knowledge of Christ among heathen and other unenlightened nations'). Mae prosiectau a rhaglenni CWM yn ceisio adlewyrchu'r newid mewn Cristnogaeth ledled y byd mewn cyfnod ôl-drefedigaethol. Yn y cyfnod hwn gwelwyd y Gogledd Global yn cael ei seciwlareiddio fwyfwy ac eglwysi'r De Global yn profi twf eithriadol.

Rydw i wedi cael y fraint o weithio gyda CWM ar brosiectau amrywiol ers 2019, gan gynnwys bod yn aelod o'r Grŵp Cyfeirio'r Rhaglen (Programme Reference Group), sy'n cynnig cefnogaeth a chyfeiriad i'w amrywiol brosiectau a rhaglenni, yn ogystal â throsolwg ohonynt. Rwyf hefyd yn cael fy ystyried yn un o'u 'hysgolheigion ifanc' gan imi dderbyn yn ddiolchgar ysgoloriaeth PhD gan CWM.

Dechreuodd fforwm Dirnadaeth ac Ymgysylltiad Radical (Discernment and Radical Engagement, DARE) CWM yn Ninas Mecsico yn 2018 fel llwyfan i ysgolheigion a gweithredwyr i fynd i'r afael â'r materion hynny sy'n allweddol i'r cyfnod presennol. Mae fforymau DARE yn croesawu ac yn annog cyfranogwyr i ymgysylltu â'r materion hynny mewn ffyrdd radical, creadigol a chyfiawn, ac i greu adnoddau a all lunio dyfodol addysg feiblaidd a diwinyddol.

Mae deg ar hugain o gyfrolau trawiadol o draethodau wedi'u casglu a'u cyhoeddi ers 2018, bron pob un ohonynt wedi dod allan o fforwm DARE. Y dull mwyaf cyffredin o ymgysylltu yn y cyd-destun hwn oedd drwy 'ddiwinyddiaeth rhyddhad'. Mae hon yn ffordd benodol o ymdrin â diwinyddiaeth a ddeilliodd

o America Ladin yn y 1960au ac yn canolbwyntio ar 'ymarfer' (*praxis*) fel y rhyngweithio parhaus rhwng diwinyddiaeth ei hun a'r dull o'i rhoi ar waith, yn bennaf mewn cyd-destunau lle ceir gormes gwleidyddol a phobl wedi'u gwthio i'r cyrion.

Cefais y fraint o fynychu fforwm DARE eleni yn Bangkok, Gwlad Thai, fel rhan o fy rôl fel 'ysgolhaig ifanc' gyda CWM. Nid oedd disgwyl i mi gyflwyno fy ymchwil fy hun eleni, gan mai dyma oedd fy mhrofiad cyntaf gyda DARE. Ond cefais wahoddiad i fynychu'r gwahanol sesiynau ac ymgysylltu â'r ysgolheigion drwy gydol y digwyddiad, gan ystyried sut y gallai eu gwaith effeithio ar fy ngweinidogaeth fy hun a gwaith academiaidd yma yng Nghymru, a sut y gallwn i gyfrannu at y fforwm yn y dyfodol.

Thema fforwm DARE eleni oedd 'Liberation Quest(ion)s' ac fe gafwyd chwe ffrwd. Fe'u dewiswyd yn benodol gan grŵp llywio DARE, oedd yn cynnwys ysgolheigion a diwinyddion o bob rhan o'r byd, fel 'materion hollbwysig i'n cyfnod presennol'. Y chwe ffrwd oedd: 1. Ecoleg ac Anthropos; 2. Economi ac Adeiladu Heddwch; 3. Datblygiad a Threfedigaeth; 4. Defodau a Seremonïau; 5. Caethwasiaeth a Gwneud Disgyblion; 6. Diwinydda mewn Oes o Argyfyngau.

Roeddwn yn ddiolchgar iawn o'r cyfle hwn, yn arbennig o ran fy mhrosiect ymchwil fy hun ar y cyd-destun Cymreig. Ynndo rwyf yn ceisio deall sut mae cynulleidfaoedd lleol yng Nghymru yn dirnad ac yn gweithredu cenhadaeth achubol Duw yng ngoleuni heriau seciwlareiddio ac argyfyngau gwleidyddol parhaus. Rwyf hefyd yn ddiolchgar am y cyfleoedd i rwydweithio a chydweithio a gefais ac yn edrych ymlaen at weld sut y gallai'r gwaith hwn effeithio ar y cyd-destun Cymreig drwy annog a hybu ein cynulleidfaoedd ffyddlon i fod â rhan yng nghenhadaeth achubol y Duw sy'n dri yn un.

Os hoffech chi ddarganfod mwy am waith CWM neu fforwm DARE, edrychwch ar eu gwefan www.cwmission.org neu dilynwch eu gwaith ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae rhestr o'u cyhoeddiadau, y rhan fwyaf ohonynt yn deillio o DARE, hefyd ar gael yn www.cwmission.org/resources/Publications

Os ydych chi'n ysgolhaig sy'n gweithio ym meysydd diwinyddiaeth gyhoeddus, ymarferol neu wleidyddol, efallai y gallech chi ystyried cyflwyno cynnig ar gyfer fforwm DARE y flwyddyn nesaf pan fydd y thema a'r 'alwad am bapurau' yn cael eu cyhoeddi.

Corey Hampton
Yr Wyddgrug

O'r Swyddfa

Tymor newydd a'i brysurdeb

'A fynni di dy wneuthur yn iach?' (Ioan 5:6) Dyma fydd thema Aneurin Owen ar gyfer ei dymor fel Llywydd y Gymanfa Gyffredinol am y ddwy flynedd nesaf. Dymunwn bob bendith a rhwyddineb iddo, a gweddiwn y bydd yn cael nerth ac iechyd i gyflawni'r gwaith. Diolchwn hefyd yn ddiffuant am Lywyddiaeth Evan Morgan dros y ddwy flynedd diwethaf; diolchwn yn arbennig iddo am gamu i'r adwy a bod yn fodlon gwasanaethu fel Llywydd am flwyddyn ychwanegol i'r hyn a ddisgwyliodd ar gyhwyn ei lywyddiaeth.

Aeth tri mis heibio ers ein Cymanfa yng Nghaerfyrddin ym mis Gorffennaf, ac fe ddaeth yn dymor cynnal cyfarfodydd y Sasiynau yn y tair talaith: y Dwyrain (eglwysi cyfrwng Saesneg), y De a'r Gogledd (cyfrwng Cymraeg). Mae yna lawer i'w weithredu a'i drafod gennym fel enwad er mwyn sicrhau bod yr eglwysi a'r gweithwyr yn cael rhyddid i barhau â gwaith yr efengyl yn eu cylchoedd. Dyma rai ohonynt nhw:

Y Gymanfa Gyffredinol 2024

Yn wyneb y ffaith fod tymor y Llywydd bellach yn ddwy flynedd, penderfynwyd yn y Gymanfa Gyffredinol yn 2023 y byddai'r Gymanfa i'r dyfodol yn dilyn y patrwm a amlinellir isod:

Pan ddaw tymor y Llywydd i ben, cynhelir Cymanfa dros gyfnod o dri diwrnod. Yn ystod y Gymanfa yma, bydd y Llywydd yn rhoi ei (h)anerchiad ymadawol a'r Llywydd newydd yn cael ei arwisgo, a bydd y Ddarlith Davies a'r Ddarlith Hanes yn cael eu traddodi. Ond yn y blynyddoedd eraill, cynhelir y Gymanfa dros gyfnod o 24 awr. Parheir i draddodi'r Ddarlith Davies a gweinyddu'r Cymun yn flynyddol. Bwriedir traddodi'r Ddarlith Hanes mewn digwyddiad yng Ngholeg Trefeca yn y blynyddoedd pan geir Cymanfa undydd.

Y flwyddyn nesaf, bydd y Gymanfa undydd yn cael ei chynnal yn Aberystwyth, gan ddefnyddio un neu fwy o'n hadeiladau sydd wedi'u lleoli yno.

Blaenoriaid

Rydym wedi ein bendithio'n fawr yn ein blaenoriaid sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau yn yr eglwysi lleol. Mae'r grŵp Athrawiaeth ac Addoli wedi paratoi papur ar gyfrifoldebau blaenoriaid ar gyfer dechrau trafod eu rôl yn y Gymdeithasfa. Gwaith yr

Henaduriaethau rwan yw trafod ymhellach i ddod ag argymhellion i Gymdeithasfa'r Gwanwyn.

Diogelu

Yn dilyn y penderfyniad yn y Gymanfa, fe ofynnwyd i gwmni diogelu eglwysig Thirtyone:Eight gynnal archwiliad allanol ar brosesau diogelu EBC, yn enwedig y ffordd y mae cynulleidfaoedd unigol, Henaduriaethau, y Gymdeithasfa, Byrddau a phwyllgorau yn cyflawni gofynion y polisi diogelu. Disgwyli'r archwiliad gymryd tua 5 wythnos a bydd yn dechrau cyn diwedd 2023. Mae hyn yn dilyn y broses o archwiliad mewnol a gafwyd i'n sefyllfa ddiogelu. Mae adnoddau ar gael ar gyfer cynnal Sul Diogelu eto eleni wedi eu paratoi gan y Panel Diogelu Cydenwadol, a thynnir sylw ynddynt at yr angen i wneud popeth o fewn ein gallu yn y maes pwysig hwn.

Tafleenni Polisi Amgylcheddol

Rydym yn hynod ddiolchgar i Steve Wynn, blaenor yn ein heglwys ym Moreton a chadeirydd ein hadran Adnoddau ac Eiddo, am baratoi 10 taflen Polisi Amgylcheddol a lansiwyd yn ein Cymanfa. Mae'r canllawiau'n cwmpasu:

- Cyflwyniad i'r Polisi Amgylcheddol a Newid Hinsawdd
- Mathau o Ynni Gwyrdd a newid eich cyflenwr ynni
- Adeiladau eglwysig
- Masnach Deg
- Cynhyrchu Ynni ac Adeiladau Sero Net
- Osgoi Plastig Un Defnydd
- Lleihau'r defnydd o ynni
- Systemau gwresogi carbon isel ac ynni adnewyddadwy
- Dadfuddsoddi mewn tanwydd ffosil
- Allyriadau carbon o drafnidiaeth

Mae copiau papur ar gael ar gais a bydd y canllawiau defnyddiol yma ar gael ar ein gwefan yn fuan.

Tai Capeli

Nodwyd yr adeg yma y llynedd fod cryn waith o'n blaenau i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru), a ddaeth i rym ar 1 Rhagfyr 2022.

Fel Eglwys, mae'n hanfodol ein bod yn cydymffurfio â'r gyfraith, yn ogystal â bod yn berchnogion eiddo cyfrifol gan ddarparu'r gofal gorau posibl i'n tenantiaid.

Sut i gynnal mynwentydd?

Bydd yr Adran Eglwys a Chymdeithas a'r Adran Adnoddau ar y cyd yn ysgrifennu llythyr i'r Llywodraeth i ofyn am newid rheolau fel ei bod hi'n ofynnol i'r Cyngor Sir/Lleol gymryd gofal o fynwentydd capeli.

Yn ogystal, ar 14 Medi, mynychodd rhai o'n swyddogion gyfarfod a drefnwyd gan Gomisiwn y Gyfraith a Cytûn i drafod creu deddfwriaeth newydd i symleiddio'r hyn sy'n bodoli'n barod. Roedd cynrychiolwyr o'r prif enwadau yng Nghymru yn bresennol, a mynegwyd consŷrn gan y mwyafrif am y broblem o gynnal a chadw mynwentydd, yn enwedig rhai amddifad lle mae'r eglwys leol wedi cau.

Plant ac Ieuencid

Yn ogystal â thrafod adeiladau a phroblemau mynwentydd, rydym yn cynllunio ar hyn o bryd ar gyfer dyfodol ein darpariaeth gwasanaeth plant ac ieuencid, a pherthynas hynny efo'n canolfan yn y Bala. Nodwyd yn glir ar bob achlysur a gafwyd i wneud hynny mai ein gweledigaeth fel Eglwys yw gweld cenhedlaeth newydd yn dod i adnabod Iesu Grist. Anfonwyd cwestiynau i ysgogi trafodaeth yn ein henaduriaethau y llynedd ac fe gafwyd diwrnod gweledigaeth yn y Bala yn y gwanwyn i geisio cyfeiriad ar gyfer y gwaith. Edrychwn ymlaen at weld ffrwyth y trafod a'r cynllunio ar gyfer y cyfnod newydd yma yr ydym ynddo, cyfnod y mae bendith yr Arglwydd yn dal i'w gweld a'i themlo ar y gwaith.

Prysurdeb ac encilio

Rwy'n ysgrifennu'r pwt hwn ar eich cyfer o gynhadledd yn Singapore wedi ei threfnu gan CWM ar gyfer Ysgrifenyddion Cyffredinol yr eglwysi sy'n perthyn i'r mudiad cenhadol byd-eang hwn. Mae yna lawer i'w adrodd am ein cydweithio, ond erthygl arall fydd honno! Mae ein cysylltiadau byd-eang yn dod â llawenydd di-ben-draw imi wrth feddwl am y cydweithwyr sydd yma yn Singapore a'r ffrindiau sy'n perthyn i'r eglwys yma. Bydd y llawenydd hwnnw yn yr eglwys fyd-eang yn parhau ar ôl dychwelyd adref pryd rwy'n gobeithio'n fawr cael cyrraedd a chymryd rhan yn oedfa sefydlu ein ffrind Rebecca Lalbiaksangi, o Mizoram yn wreiddiol, yn weinidog yng ngofalaeth Dwyrain Maldwyn y diwrnod y byddaf yn glanio'n ôl.

Ynghanol prysurdeb a theithio'r tymor newydd hwn rwy'n edrych ymlaen yn fawr at gael encilio gyda'n Gweinidogion yn Aberystwyth rhwng 24 a 26 Hydref eleni ac am barodrwydd cynifer i ddod at ei gilydd. Bydd hwn yn gyfle i ni dreulio amser yn ymlacio, sgwrsio, gweddiö a chyd-ddyheu yng nghwmni'r naill a'r llall, a chael cyfle hefyd yn siŵr i holi'r cwestiwn treiddgar hwnnw gan Iesu ei hun inni fel gweithwyr ac eglwysi: 'A fynni di dy wneuthur yn iach?'

*Nan Powell-Davies
Ysgrifennydd Cyffredinol
Eglwys Bresbyteriaidd Cymru*

Y Cynhaeaf: addewid Duw ac aberth Iesu Grist

Mae'n dymor y cynhaeaf unwaith eto, ac yn amser i lawenhau, diolch ac addoli Duw am ei ffyddlondeb i ni. Mae'r ddaear yn dal i gynhyrchu digon o fwyd ar gyfer 10 biliwn o bobl, er mai 7 biliwn yw poblogaeth y blaned. Nid prinder bwyd yw'r rheswm am newyn a diffyg bwyd mewn manau. Problem ddynol yw honno, 'problem ein systemau bwyd, a'r ffordd ry'n ni'n cynhyrchu, yn medi, yn trosglwyddo, yn prosesu, yn marchnata ac yn prynu'r bwyd,' yn ôl Gabriel Ferrero, Cadeirydd CFS y Cenhedloedd Unedig (y pwyllgor ar ddiogelwch bwyd y byd).

Addewid Duw

Mae hyn yn ein hatgoffa o ffyddlondeb Duw i'w addewid i Noa wedi'r dilyw: 'Tra pery'r ddaear, ni pheidia pryd hau a medi, oerni a gwres, haf a gaeaf, dydd a nos' (Genesis 8:22). Faint ohonon ni sydd wedi cael ein siomi gan rywun yn torri addewid? Mae llawer yn siomedig gyda chyhoeddiad y Prif Weinidog ynglŷn â'r camau tuag at 'net sero' ar 20 Medi. Falle fod rheolwr yn y gwaith, perthynas agos neu ffrind wedi'n siomi hefyd. Faint ohonon ni sydd wedi bod yn euog o dorri ein gair a siomi rhywun arall?

Mor wahanol yw'r Arglywydd Dduw, gan ei fod yn ffyddlon i'w addewidion ac yn cadw ei Air. Er i'r addewid gael ei gwneud filoedd o flynyddoedd yn ôl – o leiaf 4,500 – mae'n dal i gael ei hanrhydeddu. Mae'n addewid o dymhorau a dyddiau mewn trefn, yn ôl ewyllys Duw a'i drugaredd mawr. Roedd wedi penderfynu peidio â boddi'r byd eto, gyda mellith ychwanegol at y felltith a gyhoeddwyd amser gwrthryfel Adda ac Efa.

Dyw hyn ddim yn golygu na fyddai trychinebau lleol ar adegau amrywiol, megis daeargryn, newyn a haint, yn ogystal â'r mesur o felltith sydd mewn salwch a marwolaeth, ond nid trychineb byd-eang fel y dilyw. Mae'r addewid yn dal, 'tra pery'r ddaear', sef hyd nes y daw y byd fel ry'n ni'n ei adnabod i ben gydag ailddyfodiad Crist.

Mae hon yn addewid rasol i'r byd a'r boblogaeth gyfan, er gwaethaf drygioni dynoliaeth, gyda 'gogwydd ei feddwl yn ddrwg o'i ieuencid'. Mae'r adduned yma yn llawn trugaredd a gras cyffredinol Duw tuag at rai anhaeddiannol. Dyma destun diolch adeg y cynhaeaf – y fath ymrwymiad gan ein Creawdwr a'n Cynhaliwr! Dylem ein holi ein hunain ynglŷn â'n hymrwymiad ni iddo Fe.

Aberth Crist

Yna, mae Iesu yn defnyddio'r darlun o blannu hedyn er mwyn iddo luosogi, wrth sôn am ei aberth ar y groes a'i osod yn y bedd: 'Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthyfych, os nad yw'r gronyn gwenith yn syrthio i'r ddaear ac yn marw, y mae'n aros ar ei ben ei hun; ond os yw'n marw, y mae'n dwyn llawer o ffrwyth.' (Ioan 12:24)

Roedd Groegiaid oedd yn addoli gyda'r Iddewon wedi gofyn am gael gweld Iesu. Dyma'i eiriau iddyn nhw wrth ei gyfarfod. Roedd yr amser wedi dod iddo farw; roedd yr amser i blannu'r hedyn wedi dod. Er mwyn i hedyn luosogi a dwyn ffrwyth, rhaid ei roi yn y pridd.

Mae'n debyg bod hadau gwahanol yn lluosogi'n wahanol. Am bob un hedyn gwenith daw 20 arall. Am bob hedyn padi (reis), fe ddaw 80–100, ac mae'r un peth yn wir am india-corn.

Mae Iesu'n dangos beth fyddai canlyniad ei farwolaeth ar y groes a'i atgyfodiad. Ni fyddai'n aros fel yr un perffaith, di-bechod a di-fai y gallai pawb ei edmygu, heb obaith o ddod yn debyg iddo. Bu farw dros bechaduriaid, ac yn eu lle, gan

gymryd eu bai a'u cosb: 'Ni wybu Crist beth oedd pechu, ond gwnaeth Duw ef yn un â phechod drosom ni, er mwyn i ni ddod yn gyfiawnder Duw ynddo ef.' (2 Corinthiaid 5:21)

Oherwydd ei angau a'i atgyfodiad, byddai bywyd newydd yn dod i filynau o bobl. Gallai Duw alw pobl i'w deulu, yn frodyr a chwiorydd i Grist, yn gorff gydag Ef yn ben. Trwy gyffesu ein pechod a phwyso ar aberth Crist, cawn ein mabwysiadu yn blant i Dduw. Yn raddol, fe gawn ein gwneud yn debycach iddo, yn barod i ildio ein bywydau iddo Fe, ac yn y pen draw fe fyddwn yn debyg iddo, wedi ein hailffurfio ar ddelw Mab y Dyn!

Diolch am y cynhaeaf, am addewid rasol Duw a'i ymrwymiad i ni, ac am Iesu'r hedyn a fu farw er mwyn i filynau ddod yn debyg iddo.

John Treharne



Darlithoedd Edwin Stephen Griffith
Parch Athro Ddr David P. Gushee
Gwener 27ain Hydref 2023

'Amddiffyn democratiaeth oddi wrth ei elynion Cristnogol'
Bydd yr Athro David Gushee yn ein hannog i feddwl yn ddwys am resymau pam y dylai Cristnogion gefnogi democratiaeth a gweithio i atal ei erydu presennol mewn llawer o wledydd. Bydd yn plymio'n ddwfn i hanes cefnogaeth Gristnogol i ddemocratiaeth a pham mae llawer o Gristnogion wedi bod ac yn dal i gael eu denu -- yn anffodus -- i awdurdodaeth adweithiol yn lle hynny.

11.00-12.30: Darlith – Croeso i bawb ymuno â ni yn bersonol yng Ngholeg Bedyddwyr Caerdydd neu ar-lein.

Copies of the book *Defending Democracy from Its Christian Enemies* will be available to purchase at the college.

1.30-3.30: Gweithdy –
Ni fydd y rhan hwn o'r diwrnod yn cael ei ffrydio ar-lein

Cofrestrwch i gadarnhau presenoldeb yn bersonol
<https://forms.office.com/e/HN1i5csUa>

Mae'r Parch. Athro Dr. David P. Gushee (PhD, Union Theological Seminary, Efrog Newydd) yn Athro Moeseg Gristnogol Nodedig ym Mhrifysgol Mercer, ac yn Gadeirydd Moeseg Gymdeithasol Gristnogol yn Vrije Universiteit ("Prifysgol Rydd") Amsterdam, ac yn Brif Gymrawd Ymchwil, Canolfan Astudio Diwinyddol Bedyddwyr Rhyngwladol. Ef yw Cyn-lywydd etholedig Academi Crefydd America a'r Gymdeithas Foeseig Gristnogol, gan arwyddo ei rôl fel un o foesegwyr Cristnogol mwyaf blaenllaw America. Mae ei weithiau mwyaf cydnabyddedig yn cynnwys Kingdom Ethics, a Changing Our Mind.



post@cbc.cymru
www.cbc.cymru
029 2025 6066

Undeb Bedyddwyr Cymru
The Baptist Union of Wales

BAPTISTS TOGETHER
The Protestant Church of Wales

54 Richmond Road
Caerdydd Cardiff
CF24 3UR

Cwmni Cyfyngedig Trwy Warant RHIF 525777 / Registered Charity Number 525777.

Gwasanaethu'r Duw Byw (Dafydd Andrew Jones)

Ystyriaf gais Cyhoeddiadau'r Gair i adolygu cyfrol y Parchedig Dafydd Andrew Jones, *Gwasanaethu'r Duw Byw*, yn fraint, yn bennaf oherwydd imi fod yn weinidog ar gapel Hebron, Hen Golwyn, cartref ysbrydol yr awdur.


Ymatebiad i gais Panel Athrawiaeth ac Addoli Eglwys Bresbyteraidd Cymru yw'r gyfrol, ac yn wir yn ddiweddiariad o'i gyfrol *Ffordd o Fyw*, a gyhoeddwyd bron ugain mlynedd yn ôl.

Is-deitl y gyfrol yw Stiwardiaeth Gristnogol. Nid yw'r gair 'stiward' yn gorffwys yn esmwyth mewn rhai cylchoedd megis ardaloedd chwarelyddol Cymru ac mae i'r gair nifer o ystyriaethau i ni heddiw. 'Nid stiward biau'r gwaith ond caiff y gwaith ei ymddiried iddo ac y mae'n atebol i'r perchennog am hyrwyddo'i lwyddiant,' eglura'r awdur yn y Rhagymadrodd. Efallai fod defnydd yr Apostol Paul o'r term 'gwas Iesu Grist' yn gymorth i ni ddeall ystyr stiward yn y cyswllt hwn.

Rhennir y gyfrol yn ddeg pennod, wyth ohonynt yn ymwneud â'r ffyrdd gwahanol o wasanaethu Duw, e.e. Ffordd o Fyw, Rhannu Newyddion Da, Bod yn Newyddion Da, Amser a Doniau. Yn y ddwy bennod arall ceir rhaglen ar gyfer unigolion ac eglwysi i ddwyn y cyfan at ei gilydd ar gyfer cynllunio ymlaen, a hefyd batrwm gwasanaeth o addoliad.

Dyma gyfrol ddelfrydol ac amhrisiadwy i'w defnyddio mewn seiat, cylch trafod neu astudiaeth Feiblaidd o fewn eglwys neu ofalaeth ac ar draws yr enwadau. Ys dywed y broliant, amlinellir yma ein cyfle fel Cristnogion i wasanaethu Duw mewn cyfnod o fygythion, ofnau a dadrithiad.

Dechreuwa pob pennod gyda gweithred o addoliad byr a 'Chyflwyniad'. Rhan hanfodol o'r astudiaeth yw 'Neges y Beibl'. Dilyniir hynny gan storïau gwerthfawr a heriol gan unigolion megis Jim Wallis, Gwenallt, John Drane, Marian Lloyd Jones yn trafod gweithgaredd eglwysi Wrecsam yn darparu ar gyfer y digartref. Mae stori'r Parchedig Evan Morgan yn sôn am eglwysi Caerdydd yn creu 'ymdeimlad o berthyn a phwrpas newydd ymhlith yr aelodau, o garu a gofalu am gymydog, a phrofiad sawl un yw "Dyna beth yw gwaith a galwad yr eglwys - bod yn gyfrwng cariad a bod yn berthnasol i eraill"'. Adeiladol hefyd



yw cyfraniad Delyth Oswy-Shaw yn cyfeirio at grŵp gweithgar Cytûn Bangor yn croesawu ffoaduriaid rhyfel Syria. Ffynonellau eraill y storïau yw Cymorth Cristnogol, Byddin yr Iachawdwriaeth a CWM.

Diweddir y penodau gyda nifer o gwestiynau perthnasol ar gyfer trafodaeth gan y grŵp, a'r cyfan yn dod i ben gyda gweddi.

Bydd pob pennod yn siŵr o ddwysbigio meddyliau pob un ohonom o sylweddoli cymaint yr ydym yn syrthio'n fyr fel unigolion ac eglwysi, yn enwedig Pennod 8, *Gwasanaethu'r Duw Byw*: Arian ac Eiddo. Pwrpas y bennod, medd yr awdur, yw ystyried lle a phwysigrwydd cyfraniadau ariannol a'r defnydd o eiddo o fewn stiwardiaeth Gristnogol.

Fel gyda'r penodau eraill, sylfaenir y cyfan ar y Beibl, e.e. Mathew 19:16-22, Luc 21:1-4, Genesis 28:20-22 a Lefiticus 27:30-32.

Tristwch mawr i mi yw clywed neges o ofalaethau yma ac acw yn dweud na fyddant yn symud ymlaen i alw

Gweinidog oherwydd 'fedrwn ni ddim fforddio un (yn ariannol)'. Diwedd y gân yw'r geiniog, hyd yn oed gyda gwaith Duw!

Ar ddechrau'r bennod gofynnir cwestiynau i'w hystyried megis: Pryd y cyfrannaf, Sut y cyfrannaf, a Sut y penderfynaf pa swm i'w roi, ac ymdrinnir hefyd ag egwyddor degymu. Priodol yw ystyried y defnydd a wneir o'n cyfraniadau. Un o'r cwestiynau i'w trafod yw, 'Pa mor bwysig yw "gweld rhywbeth yn digwydd" i hybu cyfrannu? Sut fydddech chi'n gwerthuso "pethau sy'n digwydd"?'

Diolch, Dafydd Andrew, am gyfrol amserol ei chynnwys a buddiol i'w hastudio. Rwy'n siŵr y bydd Cyhoeddiadau'r Gair yn falch o weld y silffoedd yn gwacáu yn gyflym iawn wrth i eglwysi ddefnyddio'r gyfrol i ddiben astudiaeth ac fel canllaw gweithredu.

Terfynaf hyn o adolygiad gyda'r weddi hon o'r gyfrol:

Rhoddodd yr Arglwydd i ni newyddion da i'w rhannu.

Awn ymlaen â'r gwaith.

Rhoddodd yr Arglwydd i ni adnoddau ar gyfer y gwaith.

Awn ymlaen i'w defnyddio.

Addawodd yr Arglwydd ein harwain a'n nerthu yn y gwaith.

Awn ymlaen yn hyderus.

Dangosodd yr Arglwydd i ni gyffro a gwefr ei deyrnas.

Meddiannwn y cyffro ac awn ymlaen fel ei stiwardiaid yng ngrym ei gariad.

Arglwydd, tywys, arwain a defnyddia ni fel y byddwn yn gyfryngau dy fendith.

Amen.

*Trefor Lewis
Bae Colwyn*

(Cyhoeddwyd y gyfrol gan Gyhoeddiadau'r Gair; 156tt; pris: £9.99)

**Cymdeithasfa'r Gogledd
Encil yr Hydref, y Weinidogaeth Iacháu
Capel Jerwsalem, Cerrig-y-drudion, LL21 9TA**

Dydd Sadwrn, 14 Hydref 2023

Ymgynnull am 10:00

Dechrau am 10:30 y bore, gorffen am 3 o'r gloch

Dewch â byrbryd

Manylion gan y Parch Nesta Davies 07870 323790

Gair Duw ar Waith gan Denzil I. John

Casgliad o fyfyrddodau yn canolbwyntio ar roi ein ffydd ar waith yn ymarferol mewn bywyd bob dydd

Pennod 3

Dosbarth Beiblaidd ac Ysgol Sul Luc 4:14–30 | 15 Hydref



Gweddi

Arglwydd Dduw, ceisiwn dy fendith wrth i ni fyfyrto ar werth y Beibl a phwysigrwydd ei ddarllen. Gwyddom na allwn ymroi i'r Efyngyl ymarferol heb ein bod wedi ymwreiddio yn y gwaith sylfaenol. Yn ystod ein myfyrdod heddiw, gofynnwn am dy gymorth i ddeall hyn. Amen.

Darlleniad: Luc 4:14–30

Cyflwyniad

Mae Mathew, Marc a Luc yn rhoi sylw i'r hanes am Iesu yn dychwelyd i Nasareth, a phawb wedi clywed amdano. Lledodd yr hanes am y pregethwr ifanc hwn a siaradai 'megis un ac awdurdod ganddo' ac a lwyddodd i wneud daioni. Byddent yn hapus i uniaethu â'i boblogrwydd a'i lwyddiant. Wedi'r cyfan, roedd yn un o'u cymuned ac wedi gwneud enw da iddo'i hun. Tybiai'r gynulleidfa eu bod yn tystio i fachgen a fyddai'n codi i fod yn enwog ymhlith yr Iddewon ac yn dwyn enw Nasareth i sylw arweinwyr y drefn Iddewig. Ystyrient eu bod yn hyddysg yn yr Ysgrythurau a'u bod yn gwranddo ar bregethwr ffres a pherthnasol Iesu.

Ond pan ddechreuodd Iesu ddangos nad oedd y drefn Iddewig wedi gwneud cyfiawnder â'r gweddwon a'r gwahangleifion, aeth y gynulleidfa yn anniddig. Roedd Iesu yn crwydro oddi ar lwybr y ddysgeidiaeth gyfforddus roeddent wedi arfer â hi. Roedd y pregethwr hwn yn herio'r drefn ac yn dangos ei gwendidau. Mae'r Ysgrythur o hyd fel drych yn dangos gwendid dyn a'i fodd o grefydd, ac yn ein herio a'n gwneud yn anniddig. Bydd eglwys sy'n chwilio am fodd o fyw'r ffydd angen dod i'r fan honno o weld rhyfeddod Duw a'i bwrpas, ynghyd â gweld dyn yn ei wendid a'i angen.

Myfyrdod

Mae pob tröedigaeth a diwygiad yn cychwyn gyda'r dasg o ddarllen y Beibl yn weddigar a gofyn sut mae'r testun yn datguddio Duw ac yn siarad â dyn yn ei gyfnod a'i gyflwr. Byddwn yn cyfeirio at hanes Philip a'r eunuch mewn adran arall, ond daw argyhoeddiad i lawer wrth ddarllen yr Ysgrythur yn onest ac yn ystyrlon. Wrth i rywun arall daflu golau ar y testun, bydd yr ymholwr yn darganfod rhan o'r gwirionedd am Dduw ac amdano'i hun.

Pan na fydd pregethwr ar gael i bregethu, bydd y gynulleidfa leiaf yn medru cynorthwyo'i gilydd i agosáu at Dduw drwy ddarllen ychydig o adnodau a gofyn y cwestiynau sylfaenol hyn. Os bydd rhywun yno a fyddai wedi paratoi drwy ddarllen esboniad, gorau oll, ond mae rhywbeth effeithiol yn y cyd-ddarllen ac yna'r trafod. Ceir llawer o lyfrau i gynorthwyo'r grŵp bychan i fwynhau'r fendith o ddarllen y Beibl gyda'i gilydd. Efallai fod y syniad o ysgol Sul yn ddieithr i lawer heddiw, ond sut bynnag y byddwn yn cyfeirio at y gwaith o fyfyrto ar y Beibl, yr un yw'r cyffro o sylweddoli bod Duw yn siarad drwy'r sgwrsio ac yn argyhoeddi drwy'r cyfan.

Gweddi

Diolch, Arglwydd, dy fod wedi ysgogi dy bobl dros gyfnod eang o hanes Israel i gofnodi profiadau pobl a dystiodd i ti. Diolch am y rhai a gadwodd y copïau a'u trosglwyddo i ieithoedd byd. Rhyfeddwn fel y bydd darllen a myfyrio ar yr hyn a ysgrifennwyd ganrifoedd yn ôl. Rhyfeddwn fod hyn wedi digwydd mewn ieithoedd dieithr i ni, a diwylliannau mor wahanol i Gymru, ond sy'n dal i gyfareddu'r darlennydd ac yn ffenestri i ni weld rhyfeddod dy ogoniant. Molwn dy enw. Amen.


Cwestiynau i'w hystyried

- 1 Ceir esboniad hylaw ar Lyfr yr Actau â'r teitl *Men of Action*; oni fyddai'n werth ystyried y Beibl cyfan fel tystiolaeth o Dduw ar waith: y Duw gweithredol ac nid y Duw goddefol? A fydddech yn cytuno?
- 2 A oes perygl i ni eistedd yn ôl yng nghadair freichiau ein moethusrwydd wrth ddarllen y Beibl, yn hytrach nag ymgnio mewn dillad gwaith?
- 3 Bydd trafodaeth yn ysgogi'r meddwl ac yn helpu pobl i ddeall unrhyw bwnc yn well. Pa un yw'r sefyllfa orau i drafod geiriau'r Beibl – oddi mewn neu oddi allan i adeilad yr eglwys?
- 4 Beth yw mantais ac anfantais iaith grefyddol wrth siarad am ein ffydd?
- 5 Dewiswch eich hoff ddameg, ac yna dychmygwch ei rhannu hi â pherson sydd heb fod yn gysylltiedig â theulu'r ffydd.

Poster Cristnogol Cymraeg Newydd

Mae cyfres o bosteri cyfoes a lliwgar bellach ar gael yn Gymraeg gan y Christian Poster Company yn Lerpwl. Mae modd eu harchebu ar lein, ac maent ar gael mewn nifer o feintiau gwahanol – o bosteri bychain A4 i faint enfawr A1, er mwyn eu gosod o flaen y capel neu i addurno wal y festri. Am fwy o fanylion am sut i archebu, ewch i:

<https://thechristianpostercompany.com/collections/welsh-language-christian-posters>



S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol
Sul, 15 Hydref

Dim rhaglen

radio
cymru

Caniadaeth y Cysegr

Sul, 15 Hydref, am 7:30yb a 16:30yp

Amrywiaeth o emynau yng nghwmni Arfon Haines Davies

Sul, 15 Hydref, am 12yp

Oedfa dan ofal Tracy Jones, Bangor

Ffydd a diwylliant

Dysgu Cymraeg

Yn ddiweddar dwi wedi dechrau dysgu dosbarthiadau Cymraeg i oedolion. Mae wedi bod yn brofiad diddorol iawn, ac er mai dyddiau cynnar ydy hi, mae'n rhoi llawer iawn o bleser i rywun.

Ond cyn mentro i'r dosbarth mae'n rhaid hyfforddi. Dechreuodd yr hyfforddiant gyda phenwythnos ym Mhlas Tan-y-bwlch, ac fe fyddwn yn parhau i ddysgu ar y job.

Ond pam mentro? Do, fe ddaeth anogaeth gan fy ngwraig, ond sefyll ar Bont Trefechan oeddwn i pan yrrais i'r neges, a hynny yn ystod y digwyddiad i gofio 60 mlynedd ers y brotest gyntaf. Rywsut ro'n i'n sefyll y tu ôl i Aled Gwyn, yn gwrando arno'n hel atgofion ac yn ein herio ni i weithredu. Gwrando ar Aled ac edrych heibio iddo ar lu o wynebau annwyl a chyfarwydd oedd wedi rhoi oes i frwydr yr iaith. Sefyll a gwrando a meddwl: be ydw i'n ei wneud bellach? Dwi'n magu teulu orau y medra' i, dwi'n gweithio a chymdeithasu trwy gyfrwng y Gymraeg, ond y tu hwnt i hynny go brin mod i'n symud pethau ymlaen. Felly, yn y fan a'r lle, gan ddal i wrando ar Aled, wrth reswm, dyma wthio'r cwch i'r dŵr a gyrru'r neges.

Rai misoedd yn ddiweddarach dyna fi yn Nhan-y-bwlch am ddeuddydd efo criw digon nerfus yn meddwl eilwaith a rhagor: be ar wyneb daear o'n i'n wneud yno!

Doedd gan y wers gyntaf ddim i'w wneud â Chymraeg ond popeth i'w wneud â dysgu. Gawson ni wers Bortiwgaleg.

Roedd Sam y tiwtor yn ardderchog. Siaradodd o ddim Cymraeg efo ni ond drwy ystum corff ac wyneb fe lwyddodd i'n cael ni i'w ddilyn drwy nifer o ymarferion i ddysgu ychydig o Bortiwgaleg.

Fe ddysgon ni sut oedd dysgu ac fe ddysgon ni, o fewn dim, cyn lleied oedden ni'n gofio. Os ydy hi'n anodd addysgu, fe ddysgon ni mewn dim o dro mor anodd yw dysgu iaith.

Mor lwcus ydan ni i fedru cyfathrebu mor rhwydd mewn iaith goeth. Mor hawdd ydy anghofio pa mor astrus ydy adeiladwaith yr iaith honno.

Dwi wastad wedi dadlau bod llawn cymaint o angen gwersi ar siaradwyr hyderus ar sut i siarad â dysgwyr ag sydd ar y myfyrwyr eu hunain. Pa fath o iaith i'w defnyddio, peidio bod ofn symlrwydd, bod yn gynnil wrth gywiro, a dyfalbarhau.

Dyw'r eirfa ddim gan y dysgwyr, ac yn amlach na pheidio dydy'r cyddestun cymdeithasol ddim ganddyn nhw chwaith, i helpu i gynnal yr ystyr. Felly, iaith syml ac enghreifftiau o'r tu allan i fyd y Gymraeg sy'n gweithio orau.

Efallai y byddai'n syniad i ni i gyd fynd i fosc neu synagog, a hyd yn oed pe byddai'r gwasanaethau yno yn Gymraeg neu yn Saesneg, fe allen ni brofi dieithrwrch geirfa a chyddestun diwylliannol. Efallai y byddai hynny, fel fy ngwers Bortiwgaleg, yn help i ni werthfawrogi pa mor bwysig ydy ystum corff ac wyneb a pha mor syml ddylai ein cyfathrebu ni fod os ydyn ni am gyrraedd at deulu a ffrindiau (heb sôn am ddieithriad) sy'n ymweld weithiau â'n byd dieithr ni.

Rocet Arwel Jones



Salem, Fforddlas, Glan Conwy yn dathlu 240 mlynedd yr achos

Buom fel pedwar aelod yn dathlu 240 mlynedd ers sefydlu'r achos yn Salem ynghyd â theulu, ffrindiau a phlant yr eglwys, ac aelodau o Gymanfa Dinbych, Fflint a Meirion bnawn Sul, 17 Medi.

Croesawyd pawb gan Ann Owen a rhoddodd fraslun o hanes yr eglwys o'i chychwyniad, gan gyfeirio at y dynion a'r merched a aberthodd i gynnal



gwasanaethau i ddechrau achos cyntaf y Bedyddwyr yn yr ardal a chychwyniad sawl eglwys arall o fewn 50 milltir. Bu Cymanfa gyntaf Bedyddwyr y Gogledd yn Salem yn y flwyddyn 1796.

Yna, croesawyd y Parch. Huw Dylan Jones, Llangwm, i arwain y gwasanaeth. Cawsom neges a rhywbeth i ni feddwl amdano i'r dyfodol, gan ystyried beth

fydd yn digwydd i'n heglwysi. Ar ddiwedd y gwasanaeth torrwyd y gacen ddathlu a chafwyd cyfle wedyn i ymuno yn yr oruwchystafell (y festri) i fwynhau paned. Bu yna sgwrsio a hel atgofion gan fod llawer heb weld ei gilydd ers peth amser. Diolchwyd i bawb gan Ann Owen; hi hefyd oedd yr organyddes a Goronwy Jones oedd yn arwain y canu.

Dyro inni fendith newydd

Deunydd defosiynol ar gyfer addoliad cyhoeddus neu ar gyfer addoli yn y cartref



Ers sefydlu *Cenn@d* yn 2021 paratowyd gwasanaeth cyflawn yn wythnosol, a hynny gan amlaf gan Watcyn James, oedd yn rhan o'r tîm golygyddol. Ers ei ymddeoliad o waith *Cenn@d* daeth y golofn hon hefyd i ben, ac unwaith eto diolchwn iddo am ei waith yn gofalu bod yna oedfa yn ymddangos bob wythnos.

Wrth edrych tua'r dyfodol, rydym yn gweld bod gwerth a galw am ddeunydd i alluogi eglwys i gynnal gwasanaethau cyhoeddus, a hefyd fod hwnnw'n ddeunydd y gellir ei ddefnyddio gan unigolion ar eu haelwydydd. Ein bwriad yw ceisio gofalu bod dau wasanaeth yn cael eu paratoi bob mis, gan wahodd unigolion i ysgrifennu deunydd ar ein cyfer. Os byddech am gael eich ystyried fel cyfrannwr achlysurol, mae croeso i chi gysylltu â golygyddion y papur.

Diolchgarwch Cana

Emyn 119 'Duw'n darpar o hyd at raid dynol-ryw'

Gweddi Agoriadol

Arglwydd, yn nhymor y cynhaeaf diolchwn am dy haelioni tuag atom. Maddau i ni am feddwl mai ein gwaith ni yw ffrwyth y cynhaeaf. Diolchwn dy fod ti nid yn unig yn cynnal y byd, ond trwy lafur yr Arglwydd Iesu Grist wedi paratoi ffordd i'n gwaredu. Amen.

Cyflwyniad

Roedd tri phrif fath o gynnyrch a oedd yn cael ei gynaeafu yng ngwlad yr addewid: ýd, ffrwyth yr olewydd a grawnwin. Heddiw, byddwn yn edrych ar sut mae'r Arglwydd Iesu yn dangos ei sofraniaeth dros y greadigaeth wrth droi'r dŵr yn win ac yn arwain y rhai oedd yn bresennol i ddiolchgarwch arbennig iawn.

Darlleniad: Ioan 2:1-12

Gweddi

O Dduw, ein Tad nefol, trown atat yn awr mewn addoliad. Deuwn i ryfeddu, trwy gymorth dy Lân Ysbryd, at dy ras diderfyn tuag atom yn yr Arglwydd Iesu.

Helpa ni i sylweddoli bod dy ddaioni yn ein hamgylchynu. Diolchwn am y cynhaeaf

sydd yn rhodd oddi wrthyt ti. Maddau ein bod ni'n llawer rhy araf i sylwi ar arwyddion dy ddaioni, dy ofal a'th ras tuag atom. Maddau i ni ein bod ni'n llawer rhy araf i roi diolch i ti ac yn rhy ddistaw yn ein diolchgarwch.

Maddau i ni bob hunanoldeb a'r chwant i gasglu pethau daearyl.

Cynorthwya ni i fod yn fwy parod i roi, yn hytrach na derbyn, ac i fod yn effro i angen eraill.

Cyflwynwn i ti heddiw'r rhai mewn angen, mewn trallod, neu mewn salwch. Diolch dy fod Ti nid yn unig yn Arglwydd y Cynhaeaf ond hefyd yn Arglwydd a wisgodd goron o ddrain er ein mwyn. Amen.

Emyn 340 'O llefara, addfwyn Iesu'

Myfyrdod

Mae'r hanes am Iesu yn troi'r dŵr yn win yn ein hatgoffa ni nad Creawdwr sydd wedi gosod pethau i fynd a gadael iddyn nhw fod yw Duw. Yn hytrach, y mae Arglwydd y Cynhaeaf ei hun wedi camu i mewn i'n byd ni, i'n sefyllfa, a hynny yn y ffordd fwyaf agos posib drwy gymryd arno'i hun ein natur ddynol ni. Un o'r arwyddion cyntaf o hynny yw Iesu yn troi dŵr yn win mewn priodas mewn pentref bach o'r enw Cana.

Roedd gwin yn bwysig iawn mewn priodasau Iddewig yn y cyfnod hwnnw. Yn wir, mae'n rhywbeth sy'n cael ei gymeradwyo a'i gysylltu, mewn cymedroldeb, â llawenydd, bendith a diolchgarwch yn y Beibl (Deuteronomium 14:26; Salm 104:15).

Fel yn ein dyddiau ni, roedd priodasau'n achlysuron mawr ac yn gofyn am fisoedd, os nad blynyddoedd, o baratoi ymlaen llaw. Ond yn y briodas yma yng Nghana nid yw pethau'n mynd yn unol â'r disgwyl. Roedd y gwin wedi rhedeg allan. Yn y ganrif gyntaf, nid yn unig roedd hyn yn achos o gywilydd i deulu'r priodasfab a oedd â'r cyfrifoldeb o sicrhau gwledd deilwng, ond fe allai hyn hyd yn oed fod yn fater o achos cyfreithiol yn erbyn teulu'r gŵr.

Roedd Mair, mam Iesu, yno. Roedd hi'n gwybod y byddai Iesu yn gallu helpu gyda'r

sefyllfa. Ac felly mae Mair yn mynd â'r broblem at Iesu Grist.

Mae yna hefyd ddigwyddiadau neu amgylchiadau sydd yn bygwth neu'n gallu rhwystro ein llawenydd a'n diolchgarwch ninnau tuag at Dduw. Ond wrth fynd at Iesu fe ddown at yr Un sydd yn barod iawn i ddarparu ar ein cyfer.

'Nid yw f'awr i wedi dod eto'

Yn ei ymateb i Mair, mae Iesu yn datgan ei bendantrwydd i fod yn ffyddlon i'w alwad fel y Meseia, ac nid oedd am adael i unrhyw un amharu ar hynny. Mae'r Arglwydd Iesu yn glir beth oedd yr alwad honno'n ei olygu: cyfeiria at yr 'awr' y bydd yn gwneud yn iawn ar y Groes dros bechodau'r byd (Ioan 17:1). Yn y Meseia a gafodd ei ysigo ar groes Calfaría, gwelwn ryfedd ddoethineb a gogoniant Duw yn prynu pobl iddo'i hun: 'casgler er d'ogoniant, / ryfedd gynhaeaf grawnwin pêr y groes'.

'Gwnewch beth bynnag a ddywed wrthy'ch'

Dyma Mair yn galw ar un o'r gwasanaethyddion i ufuddhau i Iesu. Dyma'r un i wrando arno, dyma'r un i ufuddhau iddo. Pa mor barod ydym i ufuddhau iddo'n llwyr yn ein bywydau a gyda'n heiddo? Rhoi yn hael y mae Duw trwy roi ei Fab. Sut allen ni gadw unrhyw beth yn ôl rhagddo?

Mae Iesu yn rhoi'r gorchymyn i lenwi chwech o garreglestri, rhai mawr iawn oedd yn gallu dal rhwng 75 a 115 o litrau yr un!

'ond yr wyt ti wedi cadw'r gwin da hyd yn awr'

Dyma lywydd y wledd yn profi ac yn rhyfeddu. Yn gwbl groes i'r disgwiliadau a'r amgylchiadau, dyma'r gwin gorau yn cyrraedd ar y diwedd. Diolch am bob blas da a melystra rydym yn ei dderbyn. Diolch mwy am y gwin na all dim ond yr Iesu ei roi i ni: gwin a brynwyd ar Galfaría drwy ei werthfawr waed; gwin ei gwmni, ei faddeuant, ei drugareddau a'i heddi.

Emyn 64 'Tydi sy'n deilwng oll o'm cân'

Alun Morton Thomas

Cyhoeddir *Cenn@d* ar y cyd gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru ac Undeb Bedyddwyr Cymru. Oni nodir yn wahanol, nid yw barn cyfranwyr *Cenn@d* yn cynrychioli barn swyddogol Eglwys Bresbyteraidd Cymru nac Undeb Bedyddwyr Cymru. Gallwch anfon eich cyfraniadau / gohebiaethau / ymholiadau at:

huw@cennad.cymru | aled@ysgolsul.com

www.cennad.cymru



CennadCymru



@CennadCymru